Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yr ymweliad
# Lefel y dilyniant: mesurau arbennig

**Ysgol Glannau Gwaun**
**Clive Road**
**Abergwaun**
**Sir Penfro**
**SA65 9DB**

**Dyddiad yr ymweliad: Tachwedd 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Ann Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Maldwyn Pryse | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Glannau Gwaun wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym Mai 2012.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu Ysgol Glannau Gwaun oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen mesurau arbennig arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Codi safonau, gyda sylw arbennig ar fedrau llythrennedd ar draws yr ysgol

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae mwyafrif disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau ysgrifennu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer ohonynt yn llunio darnau sy'n cynnwys dilyniant o frawddegau ac yn gwneud defnydd priodol o atalnodi sylfaenol. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cael amrywiaeth dda o gyfleoedd i ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau ar draws y cwricwlwm yn y ddwy iaith. Maent hefyd yn ysgrifennu'n greadigol ac yn estynedig yn eu gwaith thema a gwaith ymchwilio ar draws ystod o bynciau. Maent yn sillafu ac yn atalnodi eu gwaith yn gynyddol gywir.

Ar draws yr ysgol, mae'r disgyblion mwy abl ysgrifennu'n amrywiol, yn ddiddorol ac yn estynedig mewn ystod o ffurfiau. Maent yn sillafu yn gynyddol gywir ac yn gwneud defnydd priodol o baragraffau yn eu gwaith. Gwelir gwell cysondeb bellach o ran cyflwyniad, llawysgrifen a disgwyliadau yn llyfrau disgyblion ar draws pob dosbarth y ddwy ffrwd yng nghyfnod allweddol 2.

Mae mwyafrif disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu eu medrau llafar yn briodol yn unol â'u hoed a'u gallu. Gall mwyafrif y disgyblion sgwrsio am eu gwaith o fewn cyd-destun penodol gan ddefnyddio cystrawen sylfaenol yn y Gymraeg yn gynyddol hyderus a chywir. Maent yn cydweithio'n dda mewn gweithgareddau pâr a grŵp ac yn cefnogi dysgu ei gilydd yn effeithiol. Yn y ffrwd Saesneg, mae mwyafrif disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau llafar. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn y ddwy ffrwd yn sgwrsio'n estynedig a hyderus yn Saesneg. Mae gan fwyafrif disgyblion y ffrwd Gymraeg ddigon o hyder i drafod eu syniadau yn y Gymraeg ond nid ydynt yn siarad yn gwbl gywir, ac ar adegau maent yn troi i'r Saesneg yn ddiangen.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu i fod yn ddarllenwyr annibynnol a hyderus yn unol â'u hoed a'u gallu yn y ddwy iaith. Maent yn hoffi darllen, yn deall y testun yn dda ac maent yn medru egluro cynnwys y stori yn hyderus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen gyda mynegiant a dealltwriaeth dda yn Saesneg ar y cyfan. Ond nid yw safonau darllen gystal yn y Gymraeg oherwydd diffyg dealltwriaeth o'r testun, diffyg rhuglder a diffyg mynegiant yn gyffredinol.

Dengys canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 gynnydd sylweddol o ddeg pwynt canran yn gyffredinol ar ganlyniadau'r flwyddyn flaenorol. Mae perfformiad o ran cyrraedd y deilliannau a'r lefelau uwch hefyd yn dangos cynnydd gwell, yn arbennig yng nghyfnod allweddol 2. Serch hynny, maent yn parhau yn is na chyfartaleddau'r teulu.

**Argymhelliad 2: Sicrhau bod y ddarpariaeth yn caniatáu i ddisgyblion ar bob lefel gallu i gyrraedd eu potensial**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae gan yr ysgol gynlluniau gwaith priodol sy'n nodi tasgau gwahaniaethol ar gyfer ymateb i anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae'r athrawon yn y ddwy ffrwd yn parhau i gyd-gynllunio gwersi er mwyn hybu gwell cysondeb o ran datblygu medrau llythrennedd a gwahaniaethu tasgau. Mae'r athrawon yn gwahaniaethu'r gwaith yn addas yn y rhan fwyaf o'r gwersi, ond mewn ychydig iawn o eithriadau mae disgwyliadau yn rhy isel. Mae cynlluniau wythnosol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan yr athrawon, ac mae'r sylwadau bellach yn cael eu defnyddio'n effeithiol wrth gynllunio gwaith dilynol. Mae data tracio yn dangos bod disgyblion mewn grwpiau ymyrraeth yn gwneud cynnydd da.

Mae disgyblion mwy abl a thalentog yn cael eu hadnabod yn gynnar ac yn derbyn darpariaeth briodol a heriol, er enghraifft trwy ystod dda o weithgareddau technoleg a gwyddoniaeth pwrpasol. Mae'r cynllunio manwl wedi arwain at gynnydd da yn y canran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y deilliannau uwch ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Bellach, mae'r ysgol yn perfformio'n uwch na chyfartaledd y teulu'n gyson ac yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim mewn medrau iaith a datblygiad mathemategol. Mae cynnydd yn ogystal yn y ganran gyrhaeddodd y lefelau uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Serch hynny, nid yw'r cyflawniadau eto yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion tebyg ar sail prydau ysgol am ddim, heblaw am y Gymraeg. Nid yw'r ddarpariaeth yn ychydig iawn o'r gwersi, ar bob achlysur, yn caniatáu i ddisgyblion mwy abl gyrraedd eu potensial yn ddigon cyson.

Mae canran y disgyblion sy'n sgorio 115 neu'n uwch yn y profion darllen Saesneg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn cymharu'n ffafriol gyda chanran disgyblion mewn ysgolion tebyg ar sail prydau ysgol am ddim. Nid yw'r gymhariaeth gystal o ran darllen Cymraeg.

Mae angen i'r ysgol barhau gyda'r ffocws clir ar sicrhau bod pob plentyn yn cyrraedd ei botensial.

**Argymhelliad 3: Sicrhau bod addysgu'n gyson dda neu'n well ar draws yr ysgol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Yn dilyn ailstrwythuro cyfrifoldebau addysgu ar ddiwedd tymor yr haf, mae'r pennaeth wedi ad-drefnu'r athrawon a'r dosbarthiadau er mwyn gwneud y gorau o fedrau a chryfderau'r staff. O ganlyniad, mae arbenigedd staff yn diwallu anghenion penodol

disgyblion yn fwy effeithiol ac yn cryfhau’r addysgu. Mae hyn bellach yn cael effaith gadarnhaol ar safonau'r dysgu a’r addysgu.

Mae’r portffolios ysgol gyfan o destunau ffeithiol a thestunau ffuglen yn cynorthwyo staff i sicrhau bod ystod o waith llythrennedd yn cael ei gyflwyno a bod gweithgareddau ysgogol yn cael eu darparu yn y ddwy iaith. Diwygiwyd a chytunwyd ar y polisi addysgu a dysgu gan y staff ac mae’n cael ei weithredu yn gyson drwy’r ysgol. Mae’r datblygiadau hyn wedi cyfrannu at welliant yn agos i ddeg pwynt canran yn gyffredinol mewn dangosyddion perfformiad ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Mae pob aelod o’r uwch dîm rheoli yn dilyn cylch cytunedig o arsylwi ar addysgu ym mhob dosbarth ac yn rhoi adborth i staff ar feysydd i'w datblygu o ran yr addysgu. Maent yn monitro llyfrau disgyblion a chynnig adborth ar safon a chysondeb y marcio, cynnwys y wers a safon cyflawniad y disgyblion. O ganlyniad, mae pob athro yn ymwybodol o’i rôl o ran codi safonau ar draws yr ysgol.

**Argymhelliad 4: Codi safonau presenoldeb**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae’r ysgol wedi gosod trefniadau cadarn yn eu lle i hybu presenoldeb disgyblion. Mae’n cysylltu’n fuan gyda rhieni mewn unrhyw achos o absenoldeb heb eglurhad, ac mae disgwyliadau clir ar gyfer rhieni i roi gwybod i’r ysgol am unrhyw absenoldeb.

Mae’r drefn o wobrwyo dosbarth yn wythnosol am y presenoldeb gorau wedi ennyn ymateb cadarnhaol gan ddisgyblion. Maent yn ymfalchïo os yw eu dosbarth yn llwyddo i ennill y wobr am bresenoldeb uchel. Mae’r ysgol yn sicrhau bod sylw cyson yn cael ei roi i’r system hon, a hefyd i’r drefn o gydnabod a gwobrwyo presenoldeb uchel (dros 95%) disgyblion unigol. Mae’r ysgol yn cydweithio’n effeithiol gyda swyddog cynhwysiant yr awdurdod lleol i fonitro patrymau absenoldeb.

Mae ffigyrau presenoldeb am dymor cyfredol y flwyddyn gyfredol (94%) yn dangos cynnydd o gymharu â phresenoldeb yr un cyfnod y llynedd.

**Argymhelliad 5: Sicrhau bod gweithdrefnau asesu ar gyfer dysgu yn cael eu defnyddio’n gyson ac yn effeithiol**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Derbyniodd holl athrawon yr ysgol hyfforddiant mewn dulliau o asesu ar gyfer dysgu. Mae’r staff hefyd wedi mireinio’r polisi asesu ar gyfer dysgu ac, ar y cyfan, maent yn gweithredu’r polisi yn gyson yn y gwersi. Mae aelod o’r uwch dîm rheoli'r ysgol bellach yn gyfrifol am arwain y maes hwn ar draws yr ysgol. Mae hi yn monitro’r ddarpariaeth asesu ar gyfer dysgu yn effeithiol ac mae’r blaengaredd hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu’r disgyblion.

Mae gweithdrefnau asesu ar gyfer dysgu i’w gweld yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, ac mae eu hansawdd a’u heffaith i’w gweld yn glir ar safonau’r disgyblion. Ymhob dosbarth, mae athrawon yn rhannu nodau dysgu ystyrlon gyda’r disgyblion, ac maent yn cynnig cyfleoedd priodol i ddisgyblion i drafod eu gwaith yn ystod ac ar ddiwedd sesiynau dysgu. Mae’r athrawon yn rhannu meini prawf llwyddiant clir gyda’r

disgyblion ac mae hyn yn eu galluogi i wybod pa mor dda maent yn dysgu a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn ymateb yn adeiladol i waith ysgrifenedig disgyblion, gan gynnig sylwadau o ganmoliaeth ac awgrymiadau ar sut y gellid datblygu ymhellach. Yn gyffredinol, mae'r sylwadau hyn bellach yn ddigon penodol i helpu disgyblion i wella eu gwaith. Ac eithrio mewn gweithgarwch ail-ddrafftio yn Gymraeg a Saesneg, prin yw'r cyfleoedd o hyd i ddisgyblion ymateb i sylwadau athrawon ar eu gwaith.

**Argymhelliad 6: Cryfhau'r gweithdrefnau rheolaeth ac arweinyddiaeth ar bob lefel, gan gynnwys y staff a'r corff llywodraethol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae arweinyddiaeth yr ysgol wedi datblygu'n dda drwy gryfhau rôl yr uwch dîm rheoli. Mae gan bob aelod o'r uwch dîm gyfrifoldebau penodol, ac maent yn ymgymryd â'r gwaith yn drylwyr ac yn frwdfrydig. Maent yn cyfrannu'n egnïol ac yn gadarnhaol at osod cyfeiriad strategol yr ysgol. Mae'r uwch dîm rheoli yn cwrdd yn wythnosol, ac mae'r cyfarfodydd yn canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau gwella'r ysgol. Sefydlwyd gweithdrefnau cyfathrebu effeithiol gyda gweddill y staff, ac mae ethos o gydweithio wedi gwreiddio ar draws yr ysgol.

Dan arweiniad ymroddedig a heriol y cadeirydd, mae'r llywodraethwyr yn ymwybodol iawn o'u cyfrifoldebau fel arweinwyr strategol sy'n cwestiynu ac yn herio'r ysgol. Gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol, maent wedi mynd i'r afael â nifer o flaenoriaethau gwella'r ysgol, ac wedi derbyn hyfforddiant perthnasol mewn meysydd pwysig. Mae cysylltiad rhwng y llywodraethwyr â meysydd dysgu a staff yr ysgol yn datblygu'n dda. Mae gan lywodraethwyr unigol gyswllt uniongyrchol gyda rhai agweddau penodol o fywyd yr ysgol. Maent yn dilyn amserlen fonitro safonau sy'n seiliedig ar flaenoriaethau'r cynllun datblygu ac maent yn rhannu eu profiadau gyda'r corff llywodraethol llawn yn dilyn eu hymweliadau â'r ysgol. Mae'r trefniant hwn yn cryfhau eu dealltwriaeth o berfformiad yr ysgol ac yn galluogi'r mwyafrif i weithredu'n fwy effeithiol fel cyfeillion beirniadol.

Mae strwythur arweinyddiaeth yr ysgol bellach yn sefydlog ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ethos yr ysgol a lles y staff a'r disgyblion.

**Argymhelliad 7: Sicrhau bod gweithdrefnau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn gynhwysfawr ac yn dreiddgar**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae cynllun gwella'r ysgol yn adnabod blaenoriaethau priodol ar gyfer gwelliant, ac yn gosod amserlen glir a chamau gweithredu pendant i'w gwireddu. Mae'r llywodraethwyr a'r pennaeth wedi neilltuo cyllid penodol ar gyfer eu gweithredu.

Mae'r uwch dîm rheoli bellach yn dadansoddi data perfformiad yr ysgol yn drylwyr, yn ogystal â chanlyniadau profion darllen a rhifedd cenedlaethol. Maent yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol ar gyfer blaenoriaethu meysydd ar gyfer gwelliant. Mae'r

wybodaeth hon wedi ei rhannu gydag athrawon a llywodraethwyr, sydd bellach â dealltwriaeth dda o berfformiad cyffredinol yr ysgol. Mae hyn hefyd wedi arwain at well adnabyddiaeth o gynnydd disgyblion unigol, ac at sefydlu grwpiau o ddisgyblion ar gyfer cefnogaeth ychwanegol mewn meysydd megis darllen a mathemateg. Mae'r pennaeth a'r uwch dim rheoli yn monitro llyfrau gwaith disgyblion a chynlluniau gwaith yr athrawon yn rheolaidd.

Yn ystod tymor yr hydref, mae'r uwch dim rheoli, gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol a'r arweinydd system, wedi arsylwi athrawon yn dysgu. Mae'r drefn hon yn creu cyfleoedd da i ddatblygu trafodaeth broffesiynol ynglŷn â dysgu ac addysgu. Mae'r adborth a roddir i unigolion yn nodi cryfderau yn ogystal ag agweddau i'w datblygu. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at godi safonau.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r ysgol barhau i weithio tuag at gyflawni'r argymhellion arolygu nad aethpwyd i'r afael â nhw'n llawn eto.